# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Mai 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:54** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Severn, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Croesawodd y Llywydd Aled Roberts i'r cyfarfod fel Rheolwr Busnes newydd y Democratiaid Rhyddfrydol, a diolchodd i Peter Black am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Pwyllgor Busnes yn ystod ei gyfnod fel Rheolwr Busnes y blaid honno.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Ddydd Mawrth, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal yr eitem a ganlyn ar 13 Mehefin 2012 yn lle 20 Mehefin 2012:

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Un Corff Amgylcheddol (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal yr eitem a ganlyn ar 20 Mehefin 2012 yn lle 13 Mehefin 2012:

- Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 27 Mehefin 2012**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Roi Pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU (60 munud)

- Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

## 4. Deddfwriaeth

### 4(i) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Llun 25 Mehefin 2012, fel y gellir cynnal dadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin 2012.

Cytunodd Arweinydd y Tŷ i roi rhagor o wybodaeth i'r Rheolwyr Busnes am sut y byddai pwerau i sefydlu cynlluniau ar gyfer lleihau'r dreth gyngor a materion eraill yn cael eu defnyddio, ac am y cyfleoedd ar gyfer craffu pellach gan y Cynulliad.

### 4(ii) Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Biliau Cydgrynhoi - Papur i'w nodi

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr a anfonwyd gan y Cwnsler Cyffredinol mewn ymateb i gynigion drafft a gyflwynwyd ar gyfer Rheolau Sefydlog ar Filiau Cydgrynhoi. Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol o'r farn y byddai'n briodol i bennu Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd, gan ei fod yn bwriadu ystyried y broses gyfan yn fanwl er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno rhaglen o Filiau Cydgrynhoi. Croesawodd y Rheolwyr Busnes y cyfle i weld swyddogion y Cynulliad yn cydweithio'n agos â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

## 5. Pwyllgorau

### 5(i) Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol ychwanegol yn ystod Sioe Frenhinol Cymru

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gymeradwyo cais y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol ychwanegol yn ystod Sioe Frenhinol Cymru. Cynhelir y cyfarfod hwn ddydd Mercher 25 Gorffennaf 2012.

## 6. Rheolau Sefydlog

### 6(i) Diwygiadau Amrywiol i'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar newidiadau i Reolau Sefydlog 11.10, 17.3, 17.41 a 25.22 er mwyn cywiro anghysonderau neu sicrhau eglurder. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad drafft i'r Cynulliad i'w ystyried ochr yn ochr â'r Rheolau Sefydlog drafft ar gyfer Biliau Preifat.

## 7. Cyfarfod Llawn

### 7(i) Ailwampio sesiynau Cyfarfod Llawn dydd Mercher

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod cynigion ar gyfer ailwampio ac amrywio busnes y Cynulliad ar brynhawn dydd Mercher. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ailystyried y mater unwaith eto yn dilyn ymgynghori pellach â'u grwpiau.

## 8. Busnes Arall

### 8(i) Trefniadau cyflwyno yn ystod toriad hanner tymor mis Mehefin

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Deddfwriaeth a Gwasanaeth y Siambr yn ystod toriad y Sulgwyn.